CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 14, 2023

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd**
**Nos Fawrth, Tachwedd 14, 2023 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), Elfed ap Gomer, Geraint Rowlands, Llinos Williams ac Eleri Jones. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** Gwenan Owen, Gareth Ellis, Llinos Rowlands a Cyng. Delyth Lloyd Griffiths

**2. Datgan diddordeb:**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 10, 2023**

Cynigwyd y cofnodion gan Eleri Jones ac eilwyd gan Simon Evans.

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod Hydref 10, 2023**

Eitem 9.e. Llythyr (11/10/2023) oddi wrth Un Llais Cymru gyda cyflwyniadau a wnaed yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Meirionnydd o Un Llais Cymru :

1. James Davies. Herio cynigion adeiladu tai.
2. Justin Horrell. Arbenigwr ar gysylltiad digidol yn siarad ar gysylltedd a materion cyfarfodydd hybrid gan gynghorau tref a chymuned.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Eitem 6.a. 3. Tynnwyd i lawr hysbysiad cwblhau archwiliad 2021 – 2022 a 2022 – 2023 a Ffurflen Blynyddol oddi ar ein gwefan (2/11/2023). Roeddynt wedi cael eu harddangos am 14 diwrnod fel roedd angen. Diolch i Elfed am wneud y gwaith.

Eitem 6.a. Cafodd y Clerc ei ddiolch am y gwaith cafwyd ei wneud i'r Archwilydd Mewnol (Cyngor Gwynedd) ac i'r Archwilydd Allanol (Archwilio Cymru).

Eitem 12.a. Cafodd hysbyseb ei baratoi gan Henry am Glerc i gael ei gyhoeddi yn y Cambrian News:

CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD. Gofynnir am geisiadau oddi wrth ymgeiswyr addas ar gyfer y swydd o Glerc i'r Cyngor Cymuned. Am fwy o fanylion a wnewch chi gysylltu gyda (manylion y Cadeirydd).

Cyn ei gyhoeddi, anfonwyd yr hysbyseb (13/10/2023) i'r aelodau am eu barn a chafwyd wybod gan y Cadeirydd nid oedd yn fodlon cynnwys ei fanylion ar yr hysbyseb. Mae'r Clerc yn ddiolchgar i Geraint am holi Elfed os mae'n bosib cael cyfeiriad e-bost arall i'r Cadeirydd a gyda'i arbenigaeth a'i charedigrwydd, cafwyd (24/10/2023) e-bost cadeirdydd@cyngorllanelltyd.cymru i'r Cadeirydd dderbyn ymoliadau am swydd y Clerc.

Anfonwyd yr hysbyseb ar 30/10/2023:

CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD. Gofynnir am geisiadau oddi wrth ymgeiswyr addas ar gyfer y swydd o Glerc i'r Cyngor Cymuned. Am fwy o fanylion a wnewch chi gysylltu gyda'r Cadeirydd trwy e-bost cadeirdydd@cyngorllanelltyd.cymru This advertisement is to recuit a Clerk to Llanelltyd Community Council, for which the ability to speak Welsh is essential.

## 5. Materion Ariannol

a. Bil (19/10/2023) am £264.00 oddi wrth Mr John Williams am glirio llwybrau yn ardal Bontddu. (Yn 2021 roedd y bil am £264, yn 2022 roedd y bil am £154 (roedd llai o waith angen ei wneud oherwydd y tywydd)).

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Bil (28/10/2023) am £22.00 oddi wrth RBI Poppy Appeal am 'type B wreath'.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Bil (3/11/2023) am £118.80 oddi wrth Trindle Newspapers Wales & The Borders Limited am hysbysu yn y Cambrian News yr angen am Glerc i'r Cyngor.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Llythyr (24/10/2023) oddi wrth Theatr Bara Caws. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

d. Llythyrau (27/10/2023 a 1/11/2023) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Llywodraeth Cymru. Mae'r llythyrau ynghlŷn â lwfansau i gynghorwyr cynghorau cymuned a thref – trefniadau gweithio gartref a nwyddau traul.

Yn unol ag adran 316A o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 nid oes atebolrwydd i dalu treth incwm mewn cysylltiad â thaliad a wneir i gynghorwr mewn perthynas â threuliau aelwyd mae'r cynghorwr yn ei gyflawni yn ei gartref o dan drefniadau gweithio gartref. Dim ond i'r taliad o £156 a wneir yn unol â Phenderfyniad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol y mae'r eithrio yn gymwys.

Mae rhaid i'r cynghorwr:

1. cael trefniant ffurfiol gyda'r Cyngor Cymuned a Thref.
2. datgan ei fod yn gweithio gartref yn rheolaidd o dan y trefniadau (amgáu mae llythyr templed ei ddefnyddio).

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (7/11/2023) oddi wrth Un Llais Cymru. Amgáu mae manylion cyflog i weithwyr am y cyfnod 2023/24.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Cyflog presennol y Clerc yw £11.84 x 12awr x 12mis = £1,704.96 y flwyddyn, ar SCP8. Taliad misol i'r Clerc: £113.66, taliad misol i Cyllid a Thollau EM : £28.42.

Mae pwynt SCP8 wedi newid i £12.84 yr awr ddyddiedig o Ebrill 1, 2023.

Yn absenoldeb y Clerc trafodwyd ei gyflog gan ddilyn Adolygiad Cyflog Clerc – Hydref 2023 oedd wedi ei baratoi gan Geraint Rowlands. O ganlyniad <u>penderfynwyd</u> :

1. Fod y raddfa gyflog yn newid o bwynt 8 i bwynt 13 i adlewyrchu'r cyfrifoldeb ychwannegol o fod yn Swyddog Ariannol Cyfrifol.
2. Fod y nifer oriau yn cynyddu o 12 awr y mis i 18 awr y mis.
3. Fod y newidiadau yma yn cael eu ôl-ddyddio i ddechrau Ebrill 2023.
4. Fod lwfans blynyddol o £150 yn cael ei dalu i adlewyrchu'r costau o weithio o adref.

Felly, y cyflog newydd bydd £13.97 x 18awr x 12mis = £3,017.52 y flwyddyn. Bydd rhaid anfon y wybodaeth i ein cyfrifydd E.W. Owen a'i Chwmni i gael gwybod y taliad bydd i'r Clerc ac i'r Cyllid & Thollau EM.

e. Llythyr (14/11/2023) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2024-25. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 o dan adran 137 (1) a (3) £10.81 fesul etholwr er budd yr ardal.

Bydd yr uchafswm yn £10.81 x 386 = £4,172.66.

f. Balans yn y banc ar 29/10/2023: £10,940.71. (29/10/2022: £15,199.37).

**<u>6. Archwilio</u>**

**7. Mynwent Llanelltyd**

**8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio NP5/65/256A. Dymchwel gwesty a ddifrodwyd gan dân a chodi 8 (4 fforddiadwy) tŷ tri llawr. Bontddu Hall Hotel, Bontddu

Cafwyd llythyr (8/11/2023) oddi wrth Delyth yn rhoi gwybod mae llawer o waith gan y Parc ei wneud i'r cais. Nid yw'r cais yn rhoi gwybodaeth llawn gan gynwys parcio ceir..

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd cefnogi'r cynllun mewn egwyddor yn unig oherwydd mae angen fwy o wybodaeth ar y cais, er engraifft, lle bydd ceir yn cael eu parcio gyda'r tai ddim yn cynwys garej.

**9. Gohebiaeth**

a. Llythyr (11/10/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am yr ail gam ymgysylltu â gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru bydd yn cael ei gynnal ym mis Hydref i wella gwasanaeth ambiwlans awyr yng Nghymru. Amgáu mae rhestr o lefydd lle bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (16/10/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am hyfforddiant bydd ym mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (17/10/2023) oddi wrth Swyddog Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am gronfa Grymuso Gwynedd gan Menter Môn at endidau budd o werth i'i gymuned.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (23/10/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod ar y cyd rhwng Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) ar 8/11/2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (30/10/2023) oddi wrth SCCH Paula Stewart (Heddlu Gogledd Cymru, Gorsaf Heddlu Porthmadog) pwy sy'n rhan o Dim 'Dangos y Drws i Drosedd'. Bydd y Tim yn gweithio gyda sefydliadau busnes iddynt ddefnyddio 'SMART WATER' i farcio eiddo i leihau troseddu. Mae taflenni a sticeri ar gael am bris. .

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (31/10/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith clirio coed a draenio ar lwybr Pont Figra.

e. Llythyr (1/11/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am hyfforddiant bydd ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (13/11/2023) oddi wrth Tim Tacluso Ardal Ni gyda lluniau o waith maent wedi ei wneud yn y gymuned.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ff. Llythyr (14/11/2023) oddi wrth Swyddog Hawliau Tramwy, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am wyriad Arfaethedig i lwybr troed rhif 71. Mae lleoliad y llwybr yn Penygribin Wood.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**<u>10. Bioamrywiaeth</u>**

a. Derbyniodd yr aelodau gopi o 'Llythyr o Gytundeb – Gwaith Cyfalaf' oddi wrth Simon. Roedd y copi wedi ei baratoi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Roedd yr aelodau yn fodlon efo'i gynwys ac yn disgwyl cyfraniad o £3,500.00 oddi wrth APCE.

Roedd yr aelodau yn frwdfrydig am helpu allan gyda'r gwaith gan gynnwys gwirfoddolwyr e.e. plant ysgol. Chytunwyd sefydlu pwyllgor bach i redeg y cynllun.

**<u>11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths</u>**

**<u>12. Materion Aelodau</u>**

a. Mae Llinos Rowlands yn rhoi gwybod mae amryw o drigolion Bontddu eisiau rhoi gwybod i berchenog Halfway Hotel i glirio'r llanast sydd ar y tir o gwmpas yr adeilad.

b. Mae Elfed yn holi am lwybr beics sy'n mynd trwy Cwm Mynach.

Anfonwyd llythyr (4/11/2023) i Swyddog Hawliau Tramwy Meirionnydd, Cyngor Gwynedd yn gofyn am wybodaeth ar y llwybr. Nid oedd ganddynt wybodaeth ond paswyd y neges (9/11/2023) ymlaen i Mynediad, Hamdden a Partneriaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru am wybodaeth

Llythyr ateb (14/11/2023) oddi wrth Mynediad, Hamdden a Partneriaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod am lwybr Beicio DU, llwybr Traws Eryri. Mae'r llwybr o Machynlleth i Conwy wedi cael ei greu gan CNC at dwristiaid yn yr Eryri. Nid yw'r llwybr gydag arwyddion ond wedi ei ddangos ar fap. Mae'r llwybr ar hyd ffyrdd coedwigoedd a chafodd ganiatad gan Coed Cadw sy'n berchenog y goedwig a'r ffarmwr sy'n berchenog o'r tir lle mae'r llwybr. Wrth ddatblygu'r llwybr roedd ymgynghoriad gydag Awdurdodau Ffyrdd ond yn anffodus nid gyda Cyngor Cymuned ac maent yn ymddiheuro am hyn. Amgáu mae map yn dangos y llwybr.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i CNC fod y Cyngor yn siomedig ni chafodd y cyfle i roi barn ar y llwybr. Hefyd, ni fuodd cysylltiad efo'r ffarmwr sy'n defnyddio'r tir y llwybr. Roedd barn bod y beicwyr yn amharchus i'r bobl sy'n defnyddio'r ffordd sydd yn gul.

c. Cafodd Elfed gais i dorri coed / tyfiant sy'n rhwystro'r gweld drwy 'ffenest' yr arosfa bws ger ceg ffordd Tai Cynhaeaf. Nid yw'n bosib gweld os ydy'r bws yn dod ai peidio.

Roedd bwriad i wneud y gwaith hwn ym mis Hydref 2020 gan Mr Meurig Ashton ond ni wnaethpwyd oherwydd roedd barn nid oedd angen ei wneud.

Penderfynwyd gofyn i Tim Ardal Ni i wneud y gwaith.

ch. Dyfodol y Clerc. Mae'r aelodau yn gwneud ymdrech i gael Clerc newydd.

----------